# CYMDEITHASIAETH -YR AIL FFRYNT

YSGRIFENNWYD Y NODIADAU HYN
GAN

# Ffred Ffransis

TRA ROEDD YNG NGHARCHAR,
HYDREF 1986.




DIOLCH AM EI SAFIAD DROS GYMRU
A'R IAITH GYMRAEG.

Senedd Cymdeithas yr Iaith

# CYMDEITHASIAETH -YR AIL FFRYNT

## RHAGAIR

'Cymdeithasiaeth' — gair anghyfarwydd hyd yn oed i aelodau o Gymdeithas yr Iaith. Dyma rai nodion yn unig yn amlinellu pam a sut y datblygodd y syniadaeth tu fewn i'r Gymdeithas. Ceisiaf gyflwyno'r cyfan mewn cyd-destun ffeithiol, yn hytrach nac fel haniaeth athronyddol.

## 1. RHAGYMADRODD

1. (1) a) Ymwnâi ymgyrchoedd cyntaf Cymdeithas yr Iaith a'r angen i ennill statws swyddogol llawn i'r iaith fel y gellid ei defnyddio ym mhob maes o fywyd Cymru. Fel hyn, gwelai pobl reswm dros ddysgu'r iaith a gellid ei datblygu'n hanfodol i fywyd Cymru. Mae'r ymgyrchoedd presennol dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg a thros Ddeddf Iaith newydd yn y dosbarth hwn. b) Mae ein hymgyrchoedd eraill wedi'u hanelu at greu'r amodau a'r fath o drefn faterol a all sicrhau bywyd i'r iaith a chymunedau Cymreig e.e. ein hymgyrchoedd tai a chynllunio a'n hymyrraeth mewn materion economaidd. Dyma'n 'hail ffrynt ni'.

1. (2) Yng nghasgliadau ein maniffesto (1982), casglwyd fod angen (i wireddu'r amcanion) cyfuniad o a) Mudiad iaith ymosodol — sef Cymdeithas yr Iaith, a b) Ffrynt drefnus o fudiadau blaengar yng Nghymru i greu trefn newydd i amddiffyn cymunedau lleol, a bod y Gymdeithas yn rhan o'r 'ail ffrynt' hwn, yn hytrach na dychmygu y gall newid yn sylfaenol holl fframwaith bywyd Cymru ar ei phen ei hunan.

1. (3) Yng nghyd-destun (1b) a (2b) uchod y datblygwyd y polisïau a'r syniadaeth a alwn yn 'gymdeithasiaeth'. Y cwestiwn yw beth yw ein cyfraniad unigryw ni at ffrynt neu glymblaid o'r fath?

1 (4) Dywedir yn ein maniffesto ein bod yn perthyn i'r 'gwersyll sosialaidd' o fudiadau. Nawr mae'n weddol rwydd i ni roi bathodyn 'sosialaeth' arnom ni ein hunain fel y gwnaeth cwmpawd eang iawn o unigolion a mudiadau yn y gorffennol e.e. Y Blaid Lafur Brydeinig, Robert Owen, Stalin, Trotsky, SPD Gorllewin yr Almaen, ac anarchwyr adain chwith. Gallwn ninnau ailadordd athrawiaethau sosialaidd eraill, ond 'fyddai hyn ddim yn gyfraniad at ffrynt newydd (ond yn ddyblygiad). Byddai nifer hefyd yn ystyried y geiriau dyblygus yn amherthnasol i'n sefyllfa ni yng Nghymru gan mai 'syniadau wedi'u mewnforio' ydynt. Dyma'r peth cyntaf, felly, i'w ddweud am natur ein cymdeithasiaeth — sef bod y syniadaeth a'r polisiau'n codi'n uniongyrchol o'n profiad o fywyd yng Nghymru ac o'n hymgyrchoedd yng Nghymdeithas yr Iaith. Dyma felly ein cyfraniad unigryw ni at sosialaeth fyd-eang.

1. (5) Y broblem ynghylch mudiadau cenedlaethol sosialaidd a sefydlwyd yng Nghymru yn y gorffennol e.e. Cymru Goch (yn y saithdegau; ni wn i ddim am y mudiad newydd o'r un enw) yw iddynt gychwyn gyda damcaniaethau sosialaidd o du allan i'n profiad ac, ar sail y rhain, llunio set o bolisiau neu 'blueprint' ar gyfer Cymru ddelfrydol y dyfodol. Y broblem ganlynol oedd bod y 'blueprint' hwn mor bell o realiti'r sefyllfa bresennol fel na ellid pontio rhwng y ddau trwy gymryd camau gwleidyddol penodol i symud o'r naill sefyllfa i'r llall. Ymgyfyngwyd felly i ryddhau datganiadau 'chwyldroadol'. Fel arall y bu hi yn hanes Cymdeithas yr Iaith. Cododd y polisïau a'r athroniaeth a'r dehongliad o ffeithiau'r sefyllfa dai ac economaidd a wynebem yn ein hymgyrchoedd. Dyma'r ail beth, felly, i'w ddweud am ein cymdeithasiaeth — mai syniadaeth esblygol yw hi. Cawn gyfeiriad cyffredinol i — ymgyrch — ymgyrchu — adolygu ffeithiau yn sgil y profiad — datblygu'r athroniaeth ar sail hyn — dwysau a chydgysylltir ymgyrchu pellach. Mantais bellach y dull hwn yw ei bod yn gyson a'r dull di-drais o weithredu, gan ein bod yn debygol o osgoi hunan-gyfiawnder cred fod gyda ni'r holl atebion — mae hynny'n amhosibl gyda syniadaeth esblygol. Ni lynwn at y polisiau hyn oherwydd eu bod yn gydnaws a dogma arbennig o'n heiddo, ond oherwydd mai dyma'r unig ffordd — hyd orau ein deall presennol — i ddiogelu'r iaith a chymunedau Cymreig.

1 (6) Gallaf droi'n nesaf at hanes ffeithiol sut y datblygodd syniadaeth 'cymdeithasiaeth' tu fewn i Gymdeithas yr Iaith. Wedi dechrau ymhel a'r ymgyrch dai yn hanner cyntaf y saithdegau, yr oedd sylweddoliad tu fewn i'r Gymdeithas na wnâi statws swyddogol i'r iaith y tro ynddo'i hun, a bod angen i ni ddatblygu cyfeiriad cymdeithasol — economaidd fel y gwyddem i ble 'roeddem yn mynd. Felly, trefnwyd pwyllgor polisi ac (ym 1975/6) cyfres o drafodaethau, papurau, a chyfarfodydd i drafod a datblygu 'cymdeithasiaeth'. Aethpwyd ati mor ddifrifol nes ffurfio manylion y fath o drefn lywodraethol ac economaidd ddelfrydol i Gymru; aethom mor bell o realiti'r sefyllfa gyfoes fel ein bod yn cyfyngu'n hunain i fyd theori'n unig, a gwanychai diddordeb ymhlith aelodau. Penderfynwyd felly terfynu'r union broses o bwyllgor polisi, ac ail-gyflwyno cymdeithasiaeth i'n haelodau a phobl Cymru yng nghyd-

destun diriaethol ymgyrchoedd neilltuol a fyddai'n fwy dealladwy ac yn amlycach o fod yn berthnasol i'n swyddogaeth fel Cymdeithas. Wrth ddatblygu wedyn ein hymgyrchoedd tai, cynllunio, twristiaeth, yr economi a'n sylwadau ar y drefn lywodraethol, bu cyfeirio ysbeidiol at egwyddor cymdeithasiaeth (er i lawer o aelodau newydd ddod na wyddent am y sylfeini hyn) ac ychwanegu at sylwedd yr athroniaeth yn y broses. Dyma'r trydydd peth felly i ni ei ddweud am gymdeithasiaeth — fod yma ddatblygiad organig tu fewn i brofiad y Gymdeithas.

1 (7) Yn yr ail adran, byddaf yn edrych ar yr ymgyrchoedd unigol, a cheisio cyflwyno 'cymdeithasiaeth' yng nghyd-destun y meysydd arbennig hyn, yn gyson a phenderfyniad 1976. Wedi degawd o brofiad ymgyrchu yn y meysydd hyn (ac agor rhai newydd), 'does dim drwg o gwbl mewn ceisio tynnu ynghyd y gwahanol linynnau eto a gweld pa athroniaeth gyfan sydd gennym i'w chynnig.

1. (8) Fel rhagymadrodd, gellir dweud mai cyfeiriad neu amcanion ein cymdeithasiaeth yw fel a ganlyn:—

a) Mai ffenomen gymdeithasol yw iaith, ac na bydd i'r iaith fyw oni amddiffynwn, diogelwn bywyd cymunedol yng Nghymru.

b) Wrth lunio polisiau mewn meysydd yn ymwneud â fframwaith materol bywyd Cymru, dylid cadw mewn cof fel ystyriaeth o flaenoriaeth, yr angen i gynnal bywyd cymdeithasol lleol; ac felly ochr arall yr un geiniog yw gwrthwynebu datblygiadau sy'n tanseilio bywyd cymdeithasau lleol.

c) Yr unig ffordd o sicrhau'r amcan hwnnw yw trwy drefnu — i'r graddau helaethaf bosibl — fod rheolaeth gymdeithasol leol ar bob rhan o fywyd materol Cymru. Mae hyn yn cau allan cyfalafiaeth — boed ar ffurf unigolyddol, cwmniau, gwladwriaethol, neu (yn fwyaf peryglus) gan sefydliadau cydwladol. Rhaid i'r gymuned leol gael y grym i drefnu'i bywyd ei hun, a hynny er budd y gymuned gyfan, neu bydd y cymunedau — a'n diwylliant — yn dirywio.

ch) Ni ddylid camgymryd hyn am 'blwyfoldeb'. Yn union fel y credwn fod bywyd cymunedol o'r fath yn cynnig y potensial mwyaf i fywyd unigolion, felly hefyd y byddai cymunedau diogel a hunan-hyderus yn awyddus i gyfrannu at fywyd y genedl (gw. 2(4)), a'r genedl i osod esiampl ar chwarae rhan llawn mewn materion rhyngenedlaethol.

1. (9) Wrth droi at yr ymgyrchoedd neilltuol yn yr adran nesaf, gwelwn gyfuniad ym mhob maes o a) Polisïau a digwyddiadau i atal datblygiadau niweidiol i fywyd cymunedol, a b) Polisïau cadarnhaol i ddiogelu a chryfhau bywyd cymunedol.

## 2. MEYSYDD YMGYRCHU

2 (1) TAI — Wrth ymwneud â dylanwad y farchnad dai ar gymunedau Cymraeg y daethom yn gyntaf i ystyried y materion hyn fel cymdeithas. (Fel unigolion o aelodau, digon posibl y bu llawer ohonom a rhagdybiaethau gwleidyddol a'n gosodent yn y gwersyll sosialaidd, ond trwy gyfrwng yr ymgyrch hon y cododd yr ymwybyddiaeth wleidyddol i ni fel cymdeithas, yn uniongyrchol o brofiad ein gweithgarwch). Bu ein hymyrraeth gyntaf yn y maes yn erbyn yr 'irritant' o dai haf — gan atal arwerthiant mawr o dai haf yng Nghaernarfon ym 1972. Parodd hyn i ni ddechrau ystyried perthynas y farchnad dai, a hawl rhywun i gartref, gyda pharhad cymdeithasau Cymraeg.

Elfen hanfodol o 'gymdeithasiaeth' a ddatblygodd felly oedd y gred a'r gosodiad y dylid trin tai fel asedau cymdeithasol — fel cartrefi potential i bobl ac un o sylfeini materol hanfodol cymuned — yn hytrach na'u trin fel nwyddau i wneud elw i ddatblygwyr preifat (ac a arweiniai'n sicr at Seisnigo bro — gw. 2(3)). Yr unig ddull gweinyddol o sicrhau hyn oedd i weithio tuag at gymdethasoli (neu gael rheolaeth gymdeithasol ar) y farchnad dai.

Yn ymarferol, o ran ymgyrchu, cynhwysir ceisio atal datblygiadau unigolyddol a charfannol sy'n niweidiol i'r gymuned ledu fel tai haf, stadau tai na fwriasant gyflenwi anghenion lleol, ac arwerthwyr a chwmniau adeiladu/gwerthu a geisient ymelwa ar y broses ddinistriol.

O'r taro allan yn erbyn y 'symptomau' datblygodd ein polisiau tai cadarnhaol. Pwyswyd ar awdurdodau lleol i brynu tai addas (tai gwyliau, tai gwag, tai ar werth) a'u h'addasu a'u rhentu i bobl leol. Pwyswyd arnynt i wrthod ceisiadau am ganiatad cynllunio am ddatblygiadau tai oni phrofir galwad lleol; ac hefyd am ddeddfwriaeth i'w wneud yn bwnc caniatad cynllunio i newid defnydd ty o fod yn drigfan barhaol i fod yn dy gwyliau. Byddai'r camau syml hyn yn cynyddu'n sylweddol y rheolaeth gymdeithasol ar y farchnad dai (a lleihau mewn cyfartaledd ddylanwad arwerthwyr a datblygwyr) a diogelu tai i'r gymdeithas leol, fel un o sylfeini ei pharhad.

Rhaid cydnabod fod yr holl athroniaeth hon — fel y gwelwn ym mhob maes arall — yn rhedeg yn gwbl groes i raglen wleidyddol llywodraeth Mrs Thatcher. Gorau oll: fe ddylsem weld yr ymgyrch (sy'n bwysig iawn ynddi'i hun) hefyd yn gyfrwng i greu gwrthdrawiad rhwng awdurdodau lleol Cymru (a'r bobl a drigai yn y fro) a llywodraeth ganolog. Yn lle hynny, brwydr negyddol, amddiffynnol ac aflwyddiannus at ei gilydd a ymladdwyd gan awdurdodau lleol Cymru a chan Gymdeithas yr Iaith ei hunan — gan geisio'n unig (ac yn aflwyddiannus) atal gwerthu tai cyngor. Wedi gwneud enillion pwysig yn yr ymgyrchoedd hynny sy'n uchafbwynt yr







*Rali i gefnogwyr y Glowyr,*
*Aberystwyth 1985*



*Ymweliad ag Ysgol Gynradd Wyddeleg Beal Feirste*
*(Belfast) yn 1985*

ymdrech chwarter canrif i ennill statws swyddogol llawn i'r iaith (trwy Gorff Datblygu Addysg Gymraeg a Deddf Iaith Newydd), bydd angen i ni roi ein holl sylw, yn ymosodol, i'r 'ail ffrynt' hwn o ymgyrchu dan faner cymdeithasiaeth, gan ddechrau trwy wneud argraff mawr ar y farchnad dai. Ac y mae manteision gyda ni — mae'r tai eu hunain, swyddfeydd llywodraethol leol, arwerthwyr a datblygwyr o'n cwmpas ni. Powers ddat bî, lwc owt! Yn y cyfamser — a rhaid prysuro mlaen at hynny o fewn blwyddyn (efallai'n union ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf gan na bydd llawer o symud gwleidyddol radicalaidd tan hynny) — ie, yn y cyfamser y mae'n rhaid i ni baratoi'r tir trwy ein gwaith cyhoeddusrwydd, addysgu, magu cysylltiadau a chynghreiriaid. Byddwn barod. (Dylsai'r paragraff hir diwethaf hwn fod wedi ffurfio un o'r casgliadau i'r ysgrif hwn — ond dyna fo, nodion blêr sy 'ma — ond cofiwn hyn fel un o'r casgliadau).

2. (2) CYNLLUNIO Dechreusom ymgyrchu ym maes cynllunio fel atodiad i'n hymgyrch dai. Ceisiasom sicrhau fod adrannau cynllunio awdurdodau lleol (a thrwy estyniad eu cynlluniau lleol) yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiadau tai di-angen a allai danseilio'r gymdeithas leol; ac yr ydym am ychwanegu at eu grym i reoli'r farchnad dai yn ôl buddiannau pobl leol trwy ei wneud yn bwnc caniatâd cynllunio newid defnydd tŷ i fod yn dŷ haf).

Ond, wrth ymgyfarwyddo â'r maes, daeth y Gymdeithas i weld fod gan y broses cynllunio gyfraniad cadarnhaol at ddiogelu a datblygu bywyd cymdeithasau lleol — ac y mae hyn yn awr yn ffurfio un o sylfeini'r polisiau a alwn yn gymdeithasiaeth. Ein gosodiad sylfaenol yw y dylai cynnal cymuned leol a'i diwylliant fod yn un o'r prif ystyriaethau cynllunio ac y dylai ffurfio adran ym mhob cynllun lleol. Fel hyn, deuai'n rhan o waith parhaol awdurdodau lleol i amddiffyn bywyd cymunedau lleol a'u diwylliant, i adrodd ar hyn, i farnu datblygiadau niweidiol (ac y mae cynlluniau lleol yn bwrw golwg dros boblogaeth, tai, cyflogaeth, amaeth, twristiaeth, trafnidiaeth — holl sylfeini materol cymdeithas), ac y bernir llwyddiant ai peidio'r polisïau yn y cyd-destun hwn.

Ar un adeg, ystyrai cynllunwyr fod y broses cynllunio'n ymwneud ag ystyriaethau 'defnydd tir' cul. Daethpwyd i weld yn ddiweddarach fod effeithiau eraill ar bolisiau "defnydd tir" a alwai am ryw ferw o farnu moesol neu wleidyddol e.e. effaith ar yr amgylchfyd, cynnal henebion — a chynhwyswyd adrannau ar y rhain hefyd mewn cynlluniau lleol. Erbyn hyn, y mae cynllunwyr blaengar wedi sylweddoli na ellir gwahanu polisi 'defnydd tir' oddiwrth effaith y polisiau hyn ar y gymuned o bobl sy'n trigo ar y tir hwnnw. O ganlyniad, y mae mwy o barodrwydd i gynnwys ystyriaethau cymdeithasol/diwylliannol mewn cynlluniau lleol.

Mae'r profiad hwn yn dysgu i ni ddau beth sylfaenol arall ynghylch ein cymdeithasiaeth (a chan fod y rhain eto o wirionedd cyffredinol, gellir eu hystyried eto'n rhan o'r casgliadau):—

(a) Trwy gyfrwng ein polisïau ar gymdeithasiaeth yr ydym yn cyfrannu rhwng y dimensiwn cymdeithasol/diwylliannol a'n dimensiwn economaidd, ac y mae hyn yn gyfraniad at sosialaeth fyd-eang, a

(b) Mae ymateb cynllunwyr blaengar yn dangos y wers gyffredinol y gallwn ni gydweithio yn ein hymgyrchoedd cymdeithasol a charfannau eraill sy'n rhannu nifer o'n hamcanion, heb gychwyn o'r un cymhelliad.

2. (3) YR ECONOMI Ni ddaeth ymyrraeth gyntaf Cymdeithas yr Iaith a'r frwydr i amddiffyn seiliau economaidd cymdeithasau lleol yng Nghymru o ganlyniad i unrhyw strategaeth wleidyddol na gweledigaeth athronyddol, ond yn hytrach o ganlyniad i ddigwyddiadau penodol. Eto, fel ym maes tai a chynllunio, yr oedd y cyflwyniad i'r maes trwy'r pegwn negyddol o ran gwrthwynebu cynlluniau a allai danseilio cymuned leol ac, o dipyn i beth, ddatblygu polisiau cadarnhaol o ran creu seiliau economaidd sicr i fywyd cymdeithasol (er bod llawer fwy o waith i'w wneud yn y maes hwn), a dyma un o elfennau mwyaf hanfodol cymdeithasiaeth.

Tueddai'r gwaith amddiffynnol droi o gwmpas ymgyrchoedd yn erbyn cynlluniau i ddiswyddo gweithwyr lle byddai hyn yn tanseilio'r gymuned leol. Yr enghraifft gyntaf oedd cefnogaeth i'r ymdrech (lwyddiannus dros dro) i atal cau gwaith dur Shotton. Trefnodd y Gymdeithas cyd-gyfarfodydd a phwyllgor amddiffyn y gweithwyr, taflenni, darllediadau radio anghyfreithlon, a rali yn Y Rhyl i geisio dangos i bobl Cymru pam y dylid cefnogi gweithwyr Shotton. Ychwanegodd y Gymdeithas elfen o gyseinedd, os nad cynghanedd, at yr ymgyrch gyda'r slogan 'Don't shit on Shotton'. Yr enghraifft fwyaf o ymgyrchu economaidd amddiffynnol oedd y gefnogaeth a roddodd y Gymdeithas i'r N.U.M. yn streic y glowyr 1984/5. Yma eto, fel yn Shotton, gwelsom fel ein cyfraniad gwleidyddol pennaf at yr ymgyrch (heblaw am roi cymorth ymarferol) oedd y dasg o addysgu gweddill pobl Cymru fel yr oedd brwydr y glowyr yn berthnasol iddyn nhw (a gwelai'r glowyr hwythau y dimensiwn Cymreig) h.y. y cyfrannu perspectif sy'n hanfodol i gymdeithasiaeth. Gwelsom ein hunain, a cheisiasom ddysgu pobl Cymru mai union yr un pwerau a oedd yn bygwth yr iaith Gymraeg ag a fygythiai'r cymunedau glofaol. Ni roddai'r awdurdodau bwys ar gymdeithas. Yr oeddynt yn berffaith fodlon gweld cymunedau naturiol Gymraeg yn dirywio, a broliodd y Gweinidog dros Ynni (Peter Walker) fod cynnig hael i'r glowyr, sef arian mawr i 'werthu' eu swydd neu swydd arall

dim ond iddyn nhw symud o'u cymuned. (Roedd hyn yn gyson a'r holl athroniaeth economaidd 'ar dy feic', a symudiad rhydd llafur yn yr E.E.C. — sef symud pobl at ble mae angen a chwalu cymunedau — y gwrthwyneb i gymdeithasiaeth). Mynnai'r glöwyr, ar y llaw arall, na ellid eu llwgrwobrwyo i werthu dyfodol eu cymunedau. Mynnent sicrwydd, nid yn unig i'w swyddi eu hunain a'u cyd-weithwyr, hefyd i ddyfodol eu cymdeithasau lleol trwy sicrhau fod gwaith o hyd ar gael ar gyfer prentisiaid newydd. Lle daethai'n ffasiynol erbyn hynny i rai aelodau o'r Gymdeithas ollwng y syniad o gymdeithasiaeth ac arddel bathodyn cyffredinol 'sosialydd', gwnaeth y glöwyr eu hunain ail-ddysgu i ni ystyr sosialaeth.

Ar waethaf galwad Rhodri Williams fel cadeirydd y Gymdeithas yng Nghyfarfod Cyffredinol 1978 fod dyfodol y Gymraeg yn bennaf ddibynnol ar greu seiliau economaidd sicr i gymdeithasau lleol, ni bu gweithgarwch cadarnhaol cyson ar y ffrynt hwn. Ond, o brofiad y gweithgarwch ysbeidiol a'r trafodaethau ar y maniffesto newydd, ymddangosodd nifer o ganllawiau economaidd cyffredinol a ddaeth yn rhan hanfodol o syniadaeth cymdeithasiaeth. Gallwn eu crynhoi fel hyn. Ni all cymdeithas leol (a'i diwylliant) barhau heb sylfaen economaidd sicr a gwaith i gynnal bywyd cymunedol, yn hytrach na bod symud pobl fel 'llafur' yn ôl gofynion y farchnad 'rydd' (h.y. deddf y jyngl). Yr unig drefn weinyddol o sicrhau hyn yw bod cynllunio economaidd, a rheolaeth gymdeithasol dros y cynllunio, y cynhyrchu a'r maes dosbarthu. Dylai'r rheolaeth gymdeithasol fod ar lefel gymunedol i'r graddau helaethaf posibl a democratiaeth tu fewn i fannau gwaith, gyda cynrychiolwyr mewn cynulliad cenedlaethol strategol a'r gwasanaethau sylfaenol. Ac yn olaf, dangoswyd yr unoliaeth hanfodol rhwng y frwydr economaidd a'r frwydr ddiwylliannol.

Dyma'r maes mawr o flaen y Gymdeithas mewn cyd-gysylltiad â mudiadau blaengar arall yng Nghymru. Diau fod cyfle pwysig wedi'i golli (oherwydd llaw farw y Blaid Lafur) i greu ar ôl streic y glöwyr Gyngres genedlaethol o fudiadau i amddiffyn bywyd cymdeithasol yng Nghymru.

Yn y cyfamser, mae Cymdeithas yr Iaith wedi dilyn trywydd cymdeithasiaeth mewn rhai cyfeiriadau arbennig yn y maes economaidd. Mewn ardaloedd gwledig, mae rhai celloedd wedi pwyso ar awdurdodau lleol i gymdeithasoli gwasanaethau lleol h.y. i brynu siopau, modurdai a gwestai sy'n mynd ar werth (ac yn cael eu prynu'n gyson gan bobl o du allan o dan deddf y jyngl ariannol) a'u rhentu i bobl leol i'w gweithio. Cefnogid hefyd ffermydd sydd tan berchnogaeth gyhoeddus mewn trefn debyg.

Efallai mai twristiaeth yw'r maes economaidd y rhoddodd y Gymdeithas y sylw pennaf iddo — mae'r ymwelwa ar y gymuned leol ar ei amlycaf yma. Gwrthwynebwyd datblygiadau (tai, marinas etc.) a fygythiai gymdeithasau lleol ac, ar arfordir Clwyd, bu arbrawf mewn cymdeithasiaeth gadarnhaol wrth gynnig bod sefydlu Bwrdd Datblygu'r Glannau i osod treth ar welyau gwyliau a sianelu elw o dwristiaeth tuag at gryfhau seiliau'r gymdeithas leol (o ran creu gwaith parhaol, tai cyhoeddus etc.). Yn rhan o'r ymgyrch hon, gweithredwyd yn erbyn rhannau o'r diwydiant twristaidd presennol e.e. gwersylloedd gwyliau hunan-gynhaliol, sefydlu bwrdd croeso alternatif etc.

Eto, mae ein gwethgarwch yn y maes hwn yn rhedeg yn gwbl groes i athroniaeth y llywodraeth ganolog bresennol. Fel y gwelwyd eisoes yn 2(1) wrth drafod tai preifat, y mae deddfau'r jyngl rhydd (a addolir gan Thatcheriaeth) yn rhwym o arwain at seisnigo, gan fod cyfalaf yn cael ei sugno allan o drefedigaeth fel Cymru i'r economi fetropolaidd. Ni ellid dosbarth frodorol gyfalafol gref pe mynnid un. Felly'r cysylltiad hanfodol rhwng cyfalafiaeth ac imperialaeth ar y naill law, a rhwng y gwir genedlaetholdeb a'r gwersyll sosialaidd ar y llaw arall (gw. hefyd casgliadau).

2. (4) Y DREFN LYWODRAETHOL

Awgrymwyd eisoes fod angen newidiadau yn y drefn lywodraethol os am ffurfio polisiau tai, cynllunio ac economaidd i amddiffyn cymdeithasau Cymraeg. A bod yn gyson a syniadau cymdeithasiaeth, mae angen cynulliadau cymunedol/ardal gwir gynrychioladol i feddu ar y prif rym, a chynulliad cenedlaethol o gynhyrchwyr o'r cynulliadau lleol. Nid yw Cymdeithas yr Iaith wedi ymgyrchu'n uniongyrchol yn y maes hwn oherwydd ansicrwydd ynghylch ei swyddogaeth (efallai vis a vis Plaid Cymru) e.e. ei hansicrwydd wrth ystyried refferndwm 1979. Ond gwna'r Gymdeithas gyfraniad at y maes hwn trwy greu gwrthdrawiad rhwng cynghorau lleol Cymru a llywodraeth Prydain (e.e. polisiau tai a chynllunio), ac yr ydym wedi galw am sefydlu'n uniongyrchol (o dan gysgod y drefn bresennol) gynulliad cenedlaethol o awdurdodau lleol, undebau a mudiadau trwy Gymru fel llwyfan trafod.

Ond mae cyfraniad pwysig gan Gymdeithas yr Iaith at y maes hwn hefyd o gymdeithasiaeth. Trwy gyfrwng ein hymgyrchoedd, daethom i weld mor bwysig (ar gyfer yr iaith yn ogystal ag ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol) y mae estyn democratiaeth i bob maes o fywyd cyhoeddus er mwyn sicrhau cenedl effro i amddiffyn ei bywyd. Wrth ymwneud ag agwedd afiach Awdurdod Iechyd Gwynedd, gwelwyd o brofiad uniongyrchol fod angen awdurdod ddemocrataidd a gynrychiolai bobl Gwynedd a'u dyheadau yn lle pobl enwebiedig trwy'r drefn imperialaidd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn yr ymgyrch ddarlledu, pwyswyd am Awdurdod Darlledu democrataidd a gynhwysai gynrychiolwyr o awdurdodau lleol fel bod modd




*Glyn James, cyn-lowr o'r Rhondda a*
*John Howells, Llanrhystud,*
*(Pwyllgor Gweithredu Ffermwyr Dyfed)*
*mewn cyfarfod protest i wrthwynebu'r 'cwotas' llaeth*
*a chefnogi streic y glowyr o flaen pabell y Swyddfa Gymreig*
*ar Faes Eisteddfod Llambed, 1984.*




*Angharad, Cen a Ffred yn yr un cyfarfod protest*

adrodd yn ôl a sbarduno trafodaethau cyhoeddus ac uniaethu â'r sianel Gymraeg. A daw'r enghraifft orau o ran democrateiddio bywyd cyhoeddus Cymru yn yr ymgyrch addysg gyfredol. Gallai'n cynnig o Gorff Datblygu Addysg Gymraeg fod yn fodel ar gyfer cyrff cyhoeddus. Yr egwyddor lywodraethol yw y rheolir bob maes gan gynrychiolwyr o bawb sy'n gweithio yn y maes yn hytrach na chan bobl enwebiedig na chan gorff arall nad sydd wedi'i sefydlu i'r pwrpas hwnnw (e.e. C.B.A.C.).

2. (5) ADDYSG — Ni chysylltir maes addysg ran amlaf a'r math hwn ar ymgyrchoedd, ond yn hytrach fel rhan o'r frwydr 'ddiwylliannol' bur. Ond dywedwyd eisoes ein bod wedi dysgu llawer o'n hymgyrch addysg. Awn yn bellach, a dweud fod ein cynigion ar gyfer addysg, darlledu a meysydd cyffelyb yn ffurfio rhannau sylfaenol o'n cymdeithasiaeth.

Trwy brofiad yr ymgyrch, daethom i amgyffred nad cyfrwng yr addysg yn unig oedd o bwys i ddyfodol y Gymraeg ond hefyd cynnwys yr addysg, a'r drefn ei hun a'i holl swyddogaeth. Nid oes pwynt cyfieithu i'r Gymraeg addysg sydd â'i effaith mewn diwreiddio Cymry ieuainc, a thrwy hynny danseilio cymdeithasau Cymreig.

Gallwn grynhoi elfennau hanfodol yr addysg newydd i hybu bywyd a chyfrifoldeb cymunedol fel a ganlyn. Yn gyntaf, rhaid bod cynnwys yr addysg yn berthnasol i anghenion y gymuned leol. (Ni ddylid camgymryd hyn am ddiwygiadau Thatcheraidd ar y gyfundrefn addysg — galwn am addysg sy'n berthnasol i anghenion y gymuned, nid am addysg sy'n berthnasol i anghenion cwmniau preifat sy'n ymelwa ar y gymuned). Rhaid bod myfyrwyr yn dysgu am natur yr economi lleol, a'r sefyllfa dai a sut y mae llywodraeth leol a'r broses cynllunio'n gweithio, yn ogystal a hanes a diwylliant lleol.

Mae hyn yn dod â ni at yr ail elfen hanfodol, sef bod pwyslais ar gael myfyrwyr i ffurfio'u barn eu hunain a magu agwedd beirniadol iach e.e. at y cyfryngau. Fel hyn daw to sy'n gallu amddiffyn eu cymuned a'i ddiwylliant. Bydd yn rhaid fod ffurfiau newydd ar sefydliadau'n datblygu yn y drefn addysg, gan dorri i lawr rhagfarn academaidd wedi'i ysgaru oddiwrth anghenion y gymuned leol (sydd i ddarparu pobl i wasanaethu anghenion cwmniau sylweddol a gwladwriaeth ganolog). Y nod terfynol mewn addysg uwch fyddai ffurf ar golegau cymunedol cyfun (gan orchfygu problemau arbenigo mewn safleoedd gwasgaredig trwy ddatblygiadau technolegol newydd ecsptro fibe). Yn y cyfamser, cynigiwyd y dylid sefydlu coleg gyfun Gymraeg aml-safle — sy'n gyfuniad o'n dyheadau 'diwylliannol' a 'chymdeithasol'.

Gyda mwy o gynllunio ar y drefn addysg, a thrafod o'r newydd ar ei swyddogaeth i wasanaethu a chryfhau'r gymuned, gellid cymhathu sefydliadau eraill (fel llyfrgelloedd, darlledu) i fod yn rhan o'r broses addysg.

2. (6) DARLLEDU — Gwnaed llawer o'r cyfochredd rhwng yr ymgyrch hon a'n hymgyrch addysg, a chyfrannodd yr ymgyrch ddarlledu hithau at ein hymwybyddiaeth wleidyddol a'n syniadau ynghylch cymdeithasiaeth. Dechreuodd hon eto'n ymgyrch syml dros hybu defnydd cyhoeddus o'r Gymraeg. Ond, yn union fel yn yr ymgyrch addysg, daethpwyd i weld nad oedd pwynt mewn rhoi stamp Cymraeg ar raglenni a chyfundrefn sylfaenol Anghymreig.

O ran cynnwys rhaglenni, gallai S4C, Radio Cymru (a thonfeddi cyfatebol Saesneg) o Gymru fod yn gyfryngau nerthol i gadarnhau cymdeithasau Cymraeg — yn enwedig gyda newidiadau cyfundrefnol cyfatebol a esgorent ar radio gymunedol ac 'opt-outs' lleol o'r tonfeddi cenedlaethol. Gallent fod yn gyfryngau nid yn unig i hybu diwylliant cymunedol ond hefyd i sbarduno trafod ar ddyfodol cymdeithasau lleol a'r bygythiadau a wynebent. Fel y soniwyd eisoes ynghylch Corff Datblygu Addysg Gymraeg, rhaid fydd wrth newidiadau ffurfiannol yn nhrefn rheoli darlledu yng Nghymru cyn y gwireddir hyn oll. Rhaid i gymunedau lleol Cymru adennill y grym rheoli oddiwrth 'bum gŵr doeth' y byd teledu a'r un gŵr holl-wybodus ym maes radio.

2. (7) Yr wyf wedi amlinellu — trwy nodion ffeithiol — y chwe prif maes ymgyrchu o'n profiad ni fel cymdeithas y datblygodd ein syniadau am gymdeithasiaeth trwyddynt. Cyn dod at rai casgliadau cyffredinol, digon yw dweud fod cymdeithasiaeth hefyd yn gyson a nifer o feysydd eraill o ddiddordeb i'r Gymdeithas e.e. ymgyrchu dros heddwch a'r dull di-drais o weithredu. Mae cymdeithasiaeth yn drefn hanfodol anecsbloetiadol ac yn fwy cyson a heddychiaeth na'r drefn bresennol sy'n treisio cymunedau lleol Cymru.

## 3. RHAI CASGLIADAU

3. (1) Gwelwn fod yr un llinyn a themau yn rhedeg trwy'n hymgyrchoedd yn yr holl feysydd hyn — a rhydd hyn yr hawl i ni ystyried fod cymdeithasiaeth yn syniadaeth gyson, ac yn gyfraniad o'n profiad ni i ymgyrchoedd sosialaeth a rhyddhad byd-eang.

3. (2) Trwy'r cyfrwng hwn y rhoddwn frwydr yr iaith yn ei chyd-destun gwleidyddol. Un o effeithiau tanseilio cymdeithasau lleol yw dirywiad yr iaith. Ymhlith yr effeithiau eraill y mae diwethdra, problemau tai, addysg amherthnasol etc. Mae pawb yng Nghymru sy'n ymboeni am y materion hyn yn wynebu'r un problemau a Chymdeithas yr Iaith.

3. (3) O ganlyniad i streic y glöwyr, daeth tynged a pharhad cymunedau lleol, a'r polisiau a alwn yn gymdeithasiaeth, i ganol yr agenda gwleidyddol. Mae'n bwnc cyfoes iawn, a deunydd ymgyrchu ar y cyd gan lawer o fudiadau blaengar yng Nghymru —

gyda chyfraniad hynod gan Gymdeithas yr Iaith yn uniongyrchol o'i phrofiad. Dyma botensial ar gyfer y math o gynghrair o fudiadau a allai ymgyrchu dros drefn newydd — a roddai amodau byw i'r Gymraeg — a ragwelsom yn ein maniffesto.

3. (4) Mae'n deg dweud fod y drefn newydd y galwn amdani, nid yn unig yn ateb gofynion yr iaith trwy gynnal cymunedau Cymraeg, ond hefyd yn fwy cyfiawn o ran ateb anghenion mwyafrif ein pobl. Ond nid yw hyn yn gofyn am 'farn-gwerthoedd' gan aelodau o Gymdeithas yr Iaith, oherwydd mai dyma'r unig ffordd o ddiogelu'r iaith a chymunedau Cymreig. Ni wynebwn broblem o geisio cyrraedd ein hamcan trwy ddull anghyfiawn, Mae'n dulliau, ein hymgyrchoedd, ein polisïau o ran cymdeithasiaeth, a'n nod o ddiogelu'r iaith i gyd yn adlewyrchiad o'r un cyfiawnder — a gellid dangos hynny i bobl Cymru.

3. (5) Nid oes ffin iaith i'r cyfiawnder hwnnw. Fel y gwelsom ym mrwydr Shotton (1973) ac mewn llawer o fannau'n ystod streic y glowyr, mae Cymdeithas yr Iaith yn gweld gwerth mewn brwydr i amddiffyn cymdeithas leol hyd yn oed lle bo prif iaith y gymdeithas honno'n Saesneg. Mae'r gweithgarwch yn dal yn uniongyrchol berthnasol i swyddogaeth Cymdeithas yr Iaith gan mai yn unig tu fewn i gyd-destun cymuned fyw y gellir adfer iaith.

3. (6) Gwelwn felly y cysylltiad hanfodol rhwng mudiad rhyddhad cenedlaethol a'r gwersyll Sosialaidd. Mae'r cysylltiad hwn wedi ddogfennu mewn llawer gwlad drwy'r byd cf. Tanon "Les Damnés de la terre."

3. (7) Golyga polisïau cymdeithasiaeth newid trwyadl yn fframwaith cymdeithasol economaidd a gwleidyddol Cymru. Credaf yn ddyfnach nag ym 1973 ('Daw Dydd') 'na all yr iaith Gymraeg fyw onibai fod popeth arall yn newid' yng Nghymru. Dyma'r ynni chwyldroadol sydd ym mrwydr yr iaith.

3. (8) Ond byddai'n estron i natur Cymdeithas yr Iaith — heblaw am fod yn aneffeithiol — i ddisgwyl am newid cyn gweithredwn. A dyfynnu'r Br. Wynfford James — 'adeiladwn y drefn newydd, fesul cam, o dan gysgod yr hen drefn.'

3. (9) Proses esblygol fydd hon. Mae ein cyfeiriad yn ddiogel, ond byddwn yn ychwanegu at y syniadaeth wrth fynd ymlaen gan y byddwn yn ymateb i anghenion gwrthrychol cymdeithasau lleol, yn lle ceisio bod yn gyson a rhaglen waith wedi'i threfnu'n fanwl ymlaen llaw. Tu fewn i'r nod cyffredinol, felly, gallai nid yn unig ein dulliau ond hefyd amcanion ein polisiau unigol gael eu diwygio.

3. (10) Arwydd o gryfder byw yn hytrach nag o wendid yw hyn. Neu gallwn ddweud yn hytrach fod ein nerth yn ein gwendid — nad ydym yn honni rhaglen fanwl ymlaen llaw. O ganlyniad, ymgadwn rhag hunan-gyfiawnder a dallineb i arweiniad newydd, bydd yn haws i ni ffurfio cynghrair gyda mudiadau eraill, a byddwn yn barotach i wrando. Yn gyson â'r grym di-drais, byddwn yn osgoi dogma ar y naill law na difaterwch ar y llaw arall.

3. (11) Yn ymgyrchoedd a ddisgrifiais fel 'cymdeithasiaeth' fydd ein hail ffrynt o weithredu fel cymdeithas. Wedi'r holl waith paratoadol a'r ymgyrchoedd/gweithgarwch arbrofol ac ysbeidiol hyd yma, dyma fydd prif faes ein gwaith fel cymdeithas wedi sicrhau budd o'r ymgyrchoedd mawr dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg a Deddf Iaith newydd. Byddwn barod — o ran ymwybyddiaeth, polisiau, dulliau a chysylltiadau yng Nghymru.

3. (12) Yn y gweithgarwch hwn, bydd ein cysylltiadau gyda'r cyhoedd yn bwysicach nag oedd mewn ymgyrchoedd i newid rhannau arbennig o drefn gyhoeddus Cymru (e.e. dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg). Tan hyn, byddwn yn ymdrin a bara menyn bywyd beunyddiol ein pobl. Rhaid fydd rhoi sylw arbennig i gysylltiadau cyhoeddus. Rhag bod yn rhy uchelgeisiol yn y cyswllt hwn — a chofio adnoddau cyfyngedig ein mudiad — mae'n deg dweud y cyflawnwn y rhan fwyaf o'r gwaith cyfathrebu â'r cyhoedd trwy ddull anuniongyrchol ein cysylltiadau â mudiadau eraill a fydd yn ymgyrchu gyda ni (os ydym am lwyddo). Magu cysylltiadau a chydgynllunio gyda'r mudiadau eraill hyn yw'r gwaith brys rhagbaratoadol y dylwn ni fod yn canolbwyntio arno'n awr.

3. (13) Y cwestiwn olaf yw a gawn ni aelodau a chefnogwyr yn barod i weithio a gweithredu dros yr ymgyrchoedd hyn. Mae dau wedd i'r cwestiwn hwn: (a) O ran parodrwydd — a oes problem fod gormod o 'garedigion' yr iaith wedi cael hyd i 'niche' bach cyfleus yn y drefn bresennol ac felly y byddant yn amharod i ymroi i newid y drefn? Yn gyntaf, rhaid i ni ddangos iddynt yr angen. Os gwrthodant, rhaid mynd at y 'priffyrdd' i chwilio am weithredwyr a welant werth cynnal cymunedau lleol o gychwyn o safbwyntiau gwahanol (e.e. diweithdra, diffyg cartrefi), (b) Ond prif broblem Cymdeithas yr Iaith erioed fu nid yn gymaint diffyg cefnogwyr na gweithwyr potensial, nac argyfwng cyfeiriad, ond yn hytrach 'argyfwng dulliau' — na welai gweithwyr potensial trwy ba ddulliau ymarferol y gallent hwy wneud cyfraniad i'r frwydr (ac, o ganlyniad, cilient am y rheswm hwn yn hytrach nag o ddiffyg brwdfrydedd cyffredinol). Nid oes ateb syml i'r broblem hon — ein tuedd yn y gorffennol fu cynnig fel dulliau gweithredu i'n haelodau naill ai 'gweithredu a mynd i garchar' neu 'sgwennu llythyrau'. Bydd yr atebion yn amrywio yn ôl gofynion yr ymgyrch, y lle, yr amser a'r hinsawdd gwleidyddol ar y pryd. Rhaid i ni gynllunio'n hymgyrchoedd gyda hyn mewn golwg, sef yr angen i ddyfeisio dulliau amrywiol i roi ein holl adnoddau dynol potensial ar waith yn yr ymgyrch. Fel hyn y daw y dulliau, ac felly'r gweithredwyr, ac felly'r canlyniadau.